

Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

Clerc / Clerk Gwenda Owen valleycommunitycouncil@gmail.com
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)
<http://www.valleycommunitycouncil.com>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting
7.00 y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 19.11.14

1. **Croeso / Welcome.**

2. **Presennol / Present : Cyng/ Coun M Swaine Williams (Cadeirydd/Chair), H Wilson, K Taylor, D Walters, C Furlong, G Browne, MBE W Rogerson, MBE, C W Torr, Cyng Sir/County Coun G O Jones, R A Dew**

Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng /Coun D Griffith, N Tuck

3. **Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest**

6.2 Peintio'r clock/Painting of the clock

Cyng. C W Furlong

4. **Maes Parcio/Car Park**

Swyddogion o'r Cyngor Sir yn bresennol/County Council Officers to be present

'Roedd y clerc wedi derbyn ymddiheuriad oddiwrth Pennaeth Priffyrdd ac wedi derbyn llythyr yn cadarnhau cynnig ynglyn a'r maes parcio. 'Roedd hefyd wedi cael sgwrs gyda Prif Swyddog o'r Adran Eiddo.

'Roedd Pennaeth yr Adran Briffyrdd yn cynnig fel a ganlyn:-

1. Rhoddi y maes parcio i'r Cyngor Cymuned ar les o 15 mlynedd am £2,500 y flwyddyn a byddai hyn yn cynnwys y golled incwm parcio, y gwaith cynnal a'r yswiriant.

2. Byddai y Cyngor Cymuned yn talu'r dreth ar y maes parcio (os bydd angen)

3. Os fydd y toiled yn cael ei werthu ni fydd mwy na 4 lle parcio yn cael ei gynnwys yn y gwerthiant.

Adroddodd y clerc ei bod wedi cael trafodaeth gyda Prif Swyddog o'r Adran Eiddo ac ei fod o wedi awgrymu y byddai rhaid plismona llefydd parcio pe byddai'r aelodau yn penderfynnu codi ffi ar bobl i'w neilltuo ac efallai byddai hyn yn creu problem.

Adroddodd y clerc y byddai cost flynyddol o lesio'r maes parcio oddeutu £3000 y flwyddyn yn cynnwys amcangyfrif o £500 ar gyfer y dreth gan nad oedd cost y dreth ar gael ar hyn o bryd. Ar sail y precept presennol, byddai'r gost i drethdalwyr y pentref yn £3.62 y flwyddyn, sef 6c yr wythnos. 'Roedd hyn yn cynnig gwerth am arian o gysidro fod y gost o barcio ar hyn o bryd yn 80c yr awr. Byddai cynnig parcio am ddim yn gallu lleihau y problemau traffig ar y B4545 yn y pentref, cefnogi'r angen am groesfan pelican ac yn gam positif i gefnogi'r gymuned am gost isel. Hefyd, 'roedd risg y byddai'r pentref yn colli'r maes parcio pe byddai'r Cyngor Cymuned yn gwrthod ei lesio.

Cytunnwyd i symud ymlaen i ofyn i'r Cyngor Sir baratoi les drafft a rhoddwyd caniatad i'r clerck dderbyn barn gyfreithiol oddiwrth Mr J Tyson Williams, cyn symud ymlaen yn bellach.

Cynnig/Eil HW/CT . Bu pleidlais ac 'roedd pawb o blaid.

The clerk had received an apology from the Head of Highways and had received a letter confirming their proposals regarding the car park. She had also had a discussion with a Principal Officer from the Property Department.

The Head of Highways proposed the following:-

1. To offer the car park to the Community Council on a 15 year lease for £2,500 per annum, inclusive of the loss of parking income, the maintenance work and insurance.
2. The Community Council would be responsible for the rates on the car park if applicable.
3. Should the toilets be sold, no more than 4 parking spaces would be contained within the sale.

The clerk reported that she had been in discussions with the Principal Officer from Property Services and he had suggested that, should the Community Council decide to charge a fee for reserving parking spaces, these would have to be policed and that this may create a problem to members.

The clerk reported that the annual cost of the lease would be in the region of £3000, based on an estimate of £500 set aside for the rates, the cost of which are currently not known . On the basis of the current precept, the cost to the village's rate payers would be an additional £3.62 per annum, i.e. 6p per week. This represented good value for money when compared with the current cost of 80p per hour for parking. Offering free parking could reduce the traffic congestion on the B4545 in the village, support the need for a pelican crossing and be a positive step towards supporting the community for a low cost. There was also a risk that the village could lose its car park should the Community Council decide not to lease it.

It was agreed to proceed to request the County Council to prepare a draft lease and consent was given to the clerk to request a legal opinion from Mr J Tyson Williams prior to proceeding.

Prop/Sec HW/CT, a vote was taken and all were in favour.

5 Cofnodion cyfarfod 15.10.14/ Minutes of the meeting 15.10.14

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. / *The minutes were accepted as correct.*
Cynnig/Eilio CF/GB Prop.Sec

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes 15.10.14

1. Trwsio'r wal i fynedfa Parc Mwd/Repairs to walls on entrance to Parc Mwd.

Amcangyfrif o £480 wedi ei dderbyn. Cytunnwyd i symud ymlaen./ /Estimate for £480 received. Agreed to proceed. CynnigEil CT/GB Prop/Sec.

2. Peintio'r Cloc/Painting of the clock

Amcangyfrif o £500 wedi ei dderbyn. Cytunnwyd i symud ymlaen a gofyn i'r peintiwr beintio giatiau'r fynwent. / Estimate of £500 received. It was agreed to proceed and request the painter to paint the cemetery gates. Cynnig/Eil CT/GB Propo/Sec.

Amcangyfrif o £150 am beintio'r ddwy fainc a pigo'r llythyrau allan mewn paent aur. Cytunnwyd i symud ymlaen / Estimate of £150 received for painting two benches and picking out the lettering in gold. Agreed to proceed. Cynnig/Eil DW/GB Prop /Sec

3. Gwteri/Gutters (CF)

Diolchwyd i Cyng Furlong am drwsio'r gwteri yn y pafiliwn./Coun Furlong was thanked for repairing the gutters in the pavilion.

4. Seddi Gwag/Vacant Seat

'Roedd y clerc wedi derbyn ymholiad oddiwrth Mr Moore oedd gyda diddordeb mewn ymuno fel Cyngorwr Cymuned. Darllenwyd lythyr oddiwrth Mr Moore a penderfynnwyd cynnig gwahoddiad iddo ymuno fel Cyngorhorwr Cymuned./ The clerk had received an enquiry from Mr Moore who had expressed an interested in joining as a Community Councillor. A letter received from Mr Moore was read to members present and it was agreed that Mr Moore should be invited to join as a Community Councillor. Cynnig/Eil WR/GB Prop/Sec.

5. Materion Llwybrau Ardal y Fali/Valley Footpath Matters.

Nodwyd/Noted.

7. Materion Plwyfol/Parochial Matters

1. Lay-by Graiglwyd Ganol (CT)

'Roedd Cyng. Torr wedi derbyn cwyn oddiwrth perchennog Graiglwyd Ganol fod aelodau o'r cyhoedd sydd yn canwio ar y mor mewnol ym Mhonrhydybont yn parcio ei cerbydau yn y gilfan ar y B4545 o flaen y fferm ac yn defnyddio'r cae fel toiled. Cytunnwyn i dynnu'r broblem i sylw'r Adran Briffyrdd./Councillor Torr had received a complaint from the owner of Graiglwyd Ganol that members of the public who are canoeing on the inland sea in Four Mile Bridge, are parking their vehicles in the layby on the B4545 in front of the farm and using the field as a toilet. It was agreed that this matter should be drawn to the attention of the Highways Department. Cynnig/Eil CT/HW Prop/Sec.

2. Potiau Blodau y Fali (Clerc)

Mewn ymateb i gais oddiwrth yr Adran Briffyrdd, cafodd lleoliadau'r potiau blodau eu mapio. /In response to a request from the Highways Department, the location of the flower pots were mapped.

3. Lledu Afon Cleifiog, y Fali/Dredging/Widening River Cleifiog, Valley

'Roedd y clerc wedi derbyn llythyr oddiwrth Mr G O Parry yn gofyn a fyddai modd i'r gwaith sydd eii angen ar y ffof gyfochr a'r rheilffordd a Pharc Mwd ei wneud tra 'roedd gwaith lledu Afon Cleifiog yn cael ei wneud. 'Roedd Cyng Sir G O Jones eisioes wedi dod a hyn i sylw'r Cyngor Sir ac 'roedd y clerc wedi tynnu hyn i sylw Network Rail./ The clerk had received a letter from Mr G O Parry asking whether it would be possible for the work required on the ditch next to the railway and Parc Mwd to be undertaken whilst the work to widen the River

Cleifiog was taking place. Councillor G O Jones had already brought this to the attention of the County Council and the clerk had drawn this to the attention of Network Rail.

4. Grant ar gyfer safle we/Grant for website. (Clerc)

'Roedd Cyng. N Tuck wedi trefnu amcangyfrif oddiwrth Creative Wales ar gyfer datblygu safle we newydd i'r Cyngor Cymuned. 'Roedd amcangyfrif o £395 wedi ei dderbyn, i gynnwys

- [dyluniad safle professiynol
- [Safle we wedi ei adeiladu yn defnyddi techneg diweddaraf sef HTML5 a CSS3 sydd yn sicrhau bydd y safle yn parhau i'r dyfodol ac yn fuddsoddiad i'r dyfodol.
- [Sustem rheoli cynnwys fydd y nein galluogi i ychwanegu text a lluniau, ychwanegu a dileu tudalennau ayb.
- [Hyfforddiant am ddim yn dangos sut i ddefnyddio'r sustem rheoli cynnwys.
- [Hostio di-dal am oes y safle.
- [Cefnogaeth technegol am ddim am 30 diwrnod ar ol lawnsio'r safle.
- [Cyfrifon ebost di-ddiwedd.

Cytunnwyd i symud ymlaen gan fod arian grant o £500 wedi ei dderbyn./

Coun. N Tuck had arranged an estimate from Creative Wales to develop a new website for the Community Council. An estimate of £395 had been received, to include:-

- [Development of a professional website.
- [A website built using the very latest technologies of HTML4 and CSS3 ensuring that the site is future proof and a solid return on investment.
- [A content management system allowing images to be added easily, text to be edited, and pages to be added and removed.
- [A free training session on how to use the content management system.
- [Free hosting for life.
- [Free technical support for 30 days following the launch of the new site.
- [Unlimited email accounts if required.

It was agreed to proceed as grant funding of £500 had been secured.

Cynnig/Eil KT/HW Prop/Sec.

8 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning

- 1. Cais Rhif/AppNo 49C31A/FR Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl materion wedi'u cadw'n ôl ar dir yn/Outline application for the erection of a dwelling with all matters reserved on land at 6 Copperfield Close, near Four Mile Bridge, Valley.**

Dim gwrthwynebiad, ymgynghori gyda chymdogion/No objection, neighbourhood consultation. Cynnig/Eil KT/CF Prop/Sec.

- 2. Cais rhif /App no. 40C31B/SCR Barn sgrinio ar gyfer codi annedd ar dir yn/Screening opinion for the erection of a dwelling on land at 6 Copperfield Close, Valley.**

Sgrinio i gydymffurfio a beth sydd yno yn bresennol./Dim gwrthwynebiad, ymgynghori gyda chymdogion/Screening to be in keeping with what's already present. No objection, neighbourhood consultation. Cynnig/Eil KT/CF Prop/Sec.

3. **Cais rhif /App no. 49C101B/LUC Cais am distysfrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol y ddwy garafan fel anheddau yn/Application for a Lawful Development Certificate for the existing use of two caravans as dwellings at Pencraig, Llanyghenedl**

Dim gwrthwynebiad, ymgynghori gyda chymdogion/ No objection, subject to neighbourhood consultation. Cynnig/Eil KT/CF Prop/Sec.

Penderfyniadau/Decisions

3. **Cais Rhif/App No 49C104C/Min Cais am ddiwygiad ansylweddol ar ol i ganiatad cynllunio cyfeirnod 49C104A gael ei roi i addasu ac ehangu yn/Application for a non material amendment following the grant of planning permission reference 49C104A for alterations and extensions at Valley Fish and Chip Shop, London Road, Valley.**

Wedi ei ganiatau/Approved.

4. **Cais Rhif/App No. 49C318 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu sydd yn cynnwys addasu'r to a chreu llawr cyntaf yn/Full application for alterations and extensions which includes alterations to the roof and the construction of a first floor at Ceirios, Station Road, Valley.**

Wedi ei ganiatau/Approved.

9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence.

1. **Gorchymyn Traffig Dros Dro/Temporary Traffic Order**
2. **Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (Llwybr Troed Rhif 21 Yng Nghymuned y Fali) Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2014/Isle of Anglesey County Council (Footpath No 21 in the Community of Valley) Public Path Diversion Order 2014.**

Nodwyd/Noted.

3. **Rhaglen Ynys Ynni / Energy Island Programme - Lateral Power - Swyddogol/ Official – Wedi ei gylchredeg/Circulated.**

Nodwyd/Noted.

4. **Nawdd £500 - £2000 gan Horizon fund £500 - £2000. Wedi ei gylchredeg/Circulated.**

Clerc i holi fyddai modd ceisio am flwch hysbysebu newydd./Clerk to enquire as to whether an application could be made for a new information box.

10. Gohebiaeth Unllais Cymru

1 Hyfforddiant Un Llais Cymru o 24ain – 28ain Tachwedd / One Voice Wales Training from 24th – 28th November. Wedi ei gylchredeg/Circulated.

11. Materion Ariannol / Financial Matters

**Manylion Cyfrifon / Details of Accounts – Bank Balances
26/10/14**

Treasurer - £8199.85 Business Manager – £8233.90, Ynys Wen - £10627.37, Capital - £2067.64

(Treasurer account - un-presented cheques £964.70, actual funds available £ 7235.15)

Derbynwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. / Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Cynnig/Eil CT/WR Prop/Sec.

12. Taliadau i'w gwneud Tachwedd/ Payments to be made November

Cyflog y clerc / Clerk' salary - October	£263.64
GMS	£300
C Furlong (materials for guttering)	£26.
Steel Fabrication (giatiau fynwent/cemetery gates	£117

Taliadau wedi ei cymeradwyo yn unol a phwynt 5.3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali./ Payments approved in accordance with Section 5.3 of the Valley Community Council Financial Regulations. (Cynnig/Eilio CT/KT Prop/Sec.)

13. Y Cynulliad / The Assembly

1. How to Tender Workshops / Gweithdai Sut i Dendro - swyddogol/official

Cyng K T, CT a'r clerc gyda diddordeb mewn mynychu./Coun KT and CT and the clerk expressed an interest in attending.

14. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence

1 Eich gwasanaeth chi, Eich Dewis Chi/Your Services, Your choices.

Gwasanaeth Tan/Fire Service Nodwyd/Noted.

2. Camerau Cylch Cyfyng y 5 Tref/ 5 Two CCTV Cameras..

Cais am gefnogaeth cyn 22.11.14. Cefnogaeth wedi ei roddi yn flaenorol. Request for support before 22.11.14 Support already provided.

3. LEAD Cymru Wales & Arwain Twf - LEADing Growth - North Wales Trade Show (Swyddogol/Official) Nodwyd/Noted.

4. FW: ABCD - Cyflwyniad i ddatblygu cymunedol seiliedig ar asedau / Introduction to asset-based community development . Nodwyd/Noted..

5. Adolygiad Terfyn Cyflymder Cefnffyrdd/Trunk Road Speed Limit Review Nodwyd/Noted.

6. Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol – Hydref 2014 / Natural Resource Management Bulletin – October

Nodwyd/Noted.

15. Unrhyw Fusnes Arall/Any Other Business.

1. Clerc i drefnu i Snowdon Fire gynnal a chadw'r larwm ymwthiwr./Clerk to arrange for Snowdon Fire to maintain the intruder alarm. Cynnig/Eil CT/DW Prop.Sec.

2. Cyng. Furlong yn awyddus i gael rampiau ar fynedfa Parc Mwd. Gofynnwydd iddo gael amcagyfrif o'r gost ar gyfer cyllideb 2015/16./Coun. Furlong keen to have a ramp to the entrance to Parc Mwd. He was requested to obtain an estimate for the 2015/16 budget.

3. Set yng ngwarchodfeydd y bysiau/Seat in bus shelters.

'Roedd Cyng. Torr wedi cael ymholiad ynglyn a chael seti yng ngwarchodfeydd y bysiau. Clerc i holi gyda'r Adran Drafnidiaeth./Coun Torr had received an enquiry regarding obtaining a seat in the bus shelters. Clerk to enquire with the Transport Department. Cynnig/Eil CT/DW Prop/Sec.

4. Tawelu Traffig, Lon Gorad./Traffic Calming, Gorad Road.

Derbynniwyd llythyr oddiwrth Prif Beiriannwr y Cyngor Sir ynglyn a cynllun i dawelu traffig ar Lon Gorad. Mynnegwyd pryder gan Cyng Wilson mae palmant oedd ei angen yn hytrach na chynllun i dawelu traffig. Gofynnir i'r clerch ofyn am gyfarfod ar y safle gyda'r Uwch Beiriannwr i drafod hyn ymhellach. Cytunnodd Cyng. Wilson i fynychu./A letter had been received from the Council's Chief Engineer regarding a proposed traffic calming scheme for Gorad Road. Coun. Wilson expressed concern and stated that it was a pavement which was required rather than traffic calming measures. Clerk requested to seek a site meeting with the Chief Engineer to discuss the matter further. Coun. Wilson agreed to attend. Cynnig/Eil HW/GB Propo/Sec.

5. Ysgol y Fali/Valley Primary School

Gofynnir i'r clerch ysgrifennu at Mrs J Evans a chlerc y llywodraethwyr yn Llangefni i gadarnhau fod Cyng G Browne wedi ei gyd-ethol i eistedd ar fwrdd llywodraethwyr yr ysgol./Clerk requested to write to Mrs J Evans and the governors' clerk in Llangefni to confirm that Councillor G Browne has been co-opted to sit on the school's board of governors.

15. Calendr/Calendar

16. Dyddiad Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting 17.12.14 7.00 y.h. /p.m.